CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Enw'r Awdurdod Lleol:
Cyngor Sir y Fflint
**Cyfnod y Cynllun hwn'' **
2022-2032

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'i lunio dan Adran 84 *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru)2019* [1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyflwynwyd gan Weinidogion Cymru wrth osod ein targedau.

Llofnod: Claire Homard **Dyddiad:** 27.10.21

(Mae angen i Brif Swyddog Addysg eich awdurdod lleol lofnodi'r cynllun hwn)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

Y weledigaeth:

Mae Cyngor Sir y Fflint yn credu bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Sir y Fflint yn declyn strategol hirdymor er mwyn i ni gyfrannu at y nod ledled y wlad i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn ei ysgolion ac ymestyn y sgiliau Cymraeg hynny i'r gymuned ehangach, gyda'r nod o greu sir a gwlad sy'n cynyddu i fod yn fwy dwyieithog. Rydym yn ceisio cael pobl o bob oedran i wella eu sgiliau iaith Gymraeg a bod ganddynt y gallu i ddefnyddio'r rhain yn hyderus o fewn eu teuluoedd, yn eu mannau dysgu, yn eu gweithleoedd ac yn eu cymunedau. Rydym yn chwarae'n rhan yn frwdfrydig i gyfrannu tuag at y targed cenedlaethol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein holl ddysgwyr ac mae gennym gamau uchelgeisiol i ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod.

Egwyddorion:

1. Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol a blynyddoedd cynnar ar gael yn hawdd ar draws yr awdurdod i gefnogi ac annog rhieni/gofalwyr i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant

2. Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartref (yn unol â'n dyletswyddau a nodwyd o dan adran 10 Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008)

3. Mae pob dysgwr yn y sector cyfrwng Cymraeg yn cael eu hannog i drosglwyddo'n llwyddiannus ar bob pwynt pontio → e.e grwpiau teulu/plant bach → cylch chwarae → addysg gynnar → dosbarth meithrin rhan amser → ysgol gynradd → ysgol uwchradd

4. Mae dysgwyr Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg

5. Mae dysgwyr Cymraeg o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi a'u hannog i gael mynediad i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg trwy raglen drochi bwrpasol

6. Mae dysgwyr Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg

7. Mae cydweithio effeithiol yn bodoli gyda phartneriaid, asiantaethau a gwasanaethau eraill i hyrwyddo a chynyddu dwyieithrwydd mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol

8. Mae dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cyfle ieithyddol cyfartal

9. Mae pob dysgwr yn dod yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg

10. Mae cynnydd ac ymrwymiad i ddatblygu'r Gymraeg ar draws pob agwedd o'r Cyngor yn cael ei ddathlu.

Ymrwymiad:

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymroddedig i gefnogi, ymestyn a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru, i ddatblygu dysgwyr sy'n gwbl ddwyieithog (h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg).

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i ystyried polisïau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau cenedlaethol yn llawn yn ei strategaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg:-

Ailysgrifennu'r Dyfodol – Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i egwyddorion codi dyheadau a chyrhaeddiad yn ei ysgolion trwy gael gwared ar rwystrau sy'n wynebu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Mae'n anelu at gyflawni hyn drwy godi dyheadau ar draws y rhwydwaith addysg, drwy ddarparu'r cyfleoedd o'r ansawdd uchaf ar gyfer dysgu ac addysgu, trwy ymyriadau amserol a phriodol ar gyfer dysgwyr unigol a thrwy ddefnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar.

Dyfodol Llwyddiannus – mae rôl yr iaith Gymraeg yn y cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei datgan yn glir yn yr adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus'. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i weithredu'r model cwricwlwm newydd i sicrhau gwelliannau yn ansawdd y cyfarwyddyd iaith Gymraeg, i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol ar draws pob darparwr addysgol, a gwella'r canlyniadau a gyflawnir gan holl ddysgwyr Sir y Fflint yn y Gymraeg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i'r saith nod yn y Ddeddf drwy gefnogi a datblygu cymdeithas o fewn ei ffiniau sy'n hyrwyddo, yn diogelu ac yn dathlu diwylliant, treftadaeth, yr amgylchedd, yr economi, iechyd , amrywiaeth y gymuned ac iaith Cymru.

Strategaeth Ddrafft LlC - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo'n llwyr i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r targed uchelgeisiol a heriol hwn trwy ei gynlluniau strategol, i gynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg a gwella'r canlyniadau a gyflawnir gan ei holl ddysgwyr yn y Gymraeg. Y brif strategaeth ar gyfer cyflawni'r targed hwn yw annog mwy o rieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar y cychwyn i'w plant ar lefel meithrin, fel eu bod yn cael y cyfle gorau i ddod yn gwbl ddwyieithog. Agwedd allweddol ar hyn yw codi ymwybyddiaeth rhieni o gartrefi sy'n siarad Saesneg o'r manteision o fod yn gwbl ddwyieithog ac i ddileu rhwystrau a allai eu hatal rhag meddwl bod addysg cyfrwng Cymraeg yn addas i'w plant. Rydym hefyd yn croesawu disgyblion hŷn sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg a byddwn yn darparu cefnogaeth ieithyddol ychwanegol.

Ysgolion yr 21ain Ganrif a Rhaglen Addysg – Bydd rhaglen buddsoddi cyfalaf Cyngor Sir y Fflint, ar y cyd â'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn parhau i gael ei datblygu a'i chyflwyno yng ngoleuni gofynion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau gwelliannau yn ansawdd ystâd yr ysgolion i wella canlyniadau ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rheiny yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Amcanion:

Trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, rhan-ddeiliaid a darparwyr eraill byddwn yn: -

- darparu gwybodaeth eglur i rieni am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn Sir y Fflint, gan esbonio'n eglur:

  (a) bod gan yr holl rieni / gofalwyr yn Sir y Fflint yr hawl i'w plentyn fanteisio'n llawn ar y cyfle hwn
  (b) bod croeso cynnes i bob plentyn yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig
  (c) bydd rhieni / gofalwyr heb fawr neu heb ddim Cymraeg yn cael eu hannog i ystyried addysg cyfrwng Cymraeg fel dewis ar gyfer eu plant ac yn derbyn cyngor gan yr awdurdod o ran sut i gefnogi eu plant ar eu taith addysgol.
  (d) bydd plant o gartrefi sy'n siarad Saesneg yn bennaf sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn derbyn cyngor ymarferol o ran sut i gefnogi eu plant

(e) wrth gynllunio ar gyfer modelau addysgu yn y dyfodol e.e. dysgu cyfunol, bydd ysgolion yn cynllunio'n benodol ar gyfer cefnogi teuluoedd gyda sgiliau Cymraeg cyfyngedig

(f) wrth gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd bydd ysgolion yn darparu strwythur cryf i gefnogi teuluoedd ac ehangu dealltwriaeth rhieni/gofalwyr o brofiadau addysgol eu plant

(g) mae manteision deallusol o fod yn ddwyieithog / amlieithog

- gweithio gyda rhan-ddeiliaid i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn sylweddol, yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig presennol yn y Sir (5 cynradd ac 1 uwchradd) a gwella hynny drwy: -

  (a) gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg gan gynnwys gwasanaethau addysg gynnar
  (b) datblygu system drochi sy'n fwy effeithiol i gyflawni cynnydd graddol yn nifer y disgyblion yng Nghynllun 'Trochi' Ysgol Maes Garmon flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae hyn yn rhaglen drochi cyfnod allweddol 3 wedi'i ddylunio'n bwrpasol ar gyfer disgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n dewis trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.
  (c) niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n dechrau addysg cyfrwng Cymraeg yn B2-B6 drwy ddarparu rhaglen drochi a gynllunnir yn benodol. Pan fydd hwyrddyfodiaid yn cyrraedd ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r awdurdod wedi datblygu rhaglen iaith 10 wythnos ddwys sy'n cael ei darparu yn yr ysgol gan aelod o staff â'r sgiliau priodol, sydd wedi'i hyfforddi a'i gefnogi gan aelod o Dîm Ymgynghorol y Gymraeg.

- Gweithio gydag ysgolion fel Awdurdod Lleol a thrwy'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) i ddatblygu rhaglen effeithiol o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu addysg a fydd yn cynyddu nifer yr ymarferwyr o fewn y sector cyfrwng Cymraeg.

  Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau:

  (a) cyfle cyfartal mewn datblygiad proffesiynol parhaus i ymarferwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg
  (b) cyfoeth o arbenigedd mewn meysydd cwricwlwm a rheoli i gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg

- gweithio gydag ysgolion i godi safonau'r holl ddysgwyr:

  (a) yn y sector cyfrwng Cymraeg (Cymraeg Iaith Gyntaf a phynciau sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y cwricwlwm)

(b) yn y sector cyfrwng Saesneg (lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i hyrwyddo)

- sicrhau bod aelodau etholedig, swyddogion, penaethiaid a llywodraethwyr (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg) gyda gwybodaeth a dealltwriaeth lawn o natur addysg cyfrwng Cymraeg a bod y neges hon yn treiddio trwy bob agwedd ar waith y Cyngor

- diogelu a chynyddu'r ddarpariaeth gyfredol, gan sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion o fudd i'r iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg

- Gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol sydd â diffyg disgyblion i ddenu rhieni / gofalwyr i ddewis eu hysgolion ar gyfer eu plant

Fforwm Strategol y Gymraeg:

Mae gan Gyngor Sir y Fflint Fforwm Strategol y Gymraeg sefydledig ac effeithiol. Mae'n cyfarfod bob tymor, gyda rhaglenni gwaith yn cael eu datblygu drwy 3 is-grŵp (Darpariaeth, Safonau a'r Gweithlu). Cylch gwaith y Fforwm yw:-

- Cefnogi swyddogion y cyngor i ddatblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n cynnwys targedau heriol a mesuryddion perfformiad i gyflawni llwyddiant

- Monitro gweithrediad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gweithredu a gwerthuso ei lwyddiant wrth gyflawni ei amcanion

- Sicrhau bod croesgyfeirio priodol yn cael ei wneud i gynlluniau a strategaethau eraill - yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol fel y pennir gan ofynion rheoliadol Llywodraeth Cymru

- Darparu cefnogaeth a her i'r holl bartneriaid ar weithrediad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn enwedig yn yr ysgolion gan gynnwys y gweithlu a'r llywodraethwyr

- Darparu darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg o ansawdd da sy'n cael ei hysbysebu i rieni / gofalwyr i annog niferoedd uchel i gofrestru

- Darparu adborth i arweinwyr ac aelodau etholedig y Cyngor ar flaenoriaethau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drwy'r dulliau priodol e.e. **Cabinet,** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant

- Gweithio'n agos gyda chyrff a phartneriaid perthnasol, gan gynnwys awdurdodau lleol cyfagos, i wella llwyddiant y Cynllun i gyflawni ei amcanion

- Gweithio gyda 5 Cyngor arall o fewn Grŵp 4 i gyflawni targedau WESP.

- Darparu fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a lledaenu arfer gorau

- Estyn allan at grwpiau Fforwm WESP awdurdodau eraill i gefnogi / herio ei gilydd drwy rannu arferion da ac ymchwilio heriau cyffredin.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio cyflawni cynllun uchelgeisiol ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ac yn ceisio adeiladu'n effeithiol ar ei ddarpariaeth wedi Eisteddfod yr Urdd lwyddiannus iawn ym Mai 2016.

Mae gan y Cyngor berthynas waith effeithiol iawn gyda phartneriaid allweddol yn y sector Cymraeg e.e. Mudiad Meithrin, Menter Iaith Sir y Fflint, yr Urdd a Choleg Cambria, a'r gweithio ar y cyd hwn yw conglfaen darpariaeth ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae Fforwm Strategol y Gymraeg yn darparu cymorth a chraffu effeithiol ac mae'n sail i'r broses gyfan o gyflwyno'r cynllun.

Cludiant:

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cyngor Sir y Fflint yn bodloni gofynion Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae Polisi Cludiant Ysgol y Cyngor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol i gael eu darparu gyda chludiant am ddim i ysgolion Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r meini prawf pellter a osodwyd yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, h.y. 2 filltir ar gyfer plant oedran cynradd a 3 milltir ar gyfer uwchradd. Mae hyn yn cynnwys darparu cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r Sir os yw'n briodol, ar yr amod mai'r **ysgol hon yw'r agosaf** at gyfeiriad cartref y dysgwr . Mae mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hwyluso gan ddarparu rhwydwaith o lwybrau cludiant addas ac amseroedd teithio nad ydynt yn ormodol.

Darperir cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n dymuno cael mynediad i gyrsiau ôl-16 yn Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys darparu cludiant am ddim i sefydliadau addysgol mewn awdurdodau cyfagos os yw hynny'n briodol, os yw'r cyrsiau a ddilynir mewn safleoedd dros 3 milltir ac yn agosaf at gyfeiriad cartref y dysgwr.

Rhaglen Gyfalaf

Mae lefel cymorth gwleidyddol y Cabinet ar gyfer ymestyn addysg cyfrwng Cymraeg y rhaglen gyfalaf yn parhau i fod yn gryf ac ymrwymedig.

Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug

- Wedi'i ariannu'n bennaf o Grantiau Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynnig Gofal Plant.
- Prosiect wedi'i dendro trwy bartneriaeth adeiladu Gogledd Cymru.
- Dechreuodd yr adeiladwyr ar y safle ar 23 Tachwedd 2020
- Rhagwelir i'r prosiect gael ei gwblhau erbyn Pasg 2022

Ysgol Croes Atti, Glannau Dyfrdwy

- Mae mwy o fuddsoddiad cyfalaf wedi'i gadarnhau ar gyfer safle Glannau Dyfrdwy, Ysgol Croes Atti, i adnewyddu'r amgylchedd dysgu yn parhau i ddenu disgyblion yn ardal Glannau Dyfrdwy i addysg cyfrwng Cymraeg. Cabinet wedi cymeradwyo adeilad newydd ar gyfer Ysgol Croes Atti fel rhan o Gynllun Strategol Amlinellol Ysgolion 21ain Ganrif Band B. Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Croes Atti Glannau Dyfrdwy yn parhau i gynyddu. Yng Nghroes Atti, Shotton, mae 77 o blant llawn amser o flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6. Mae 5 disgybl plentyn meithrin ychwanegol. Mae'r garfan gyntaf wedi cyrraedd Blwyddyn 6 yn 2021.

- Wedi'i ariannu o Grantiau Gofal Plant Llywodraeth Cymru ac Ysgolion yr 21ain Ganrif LlC (LlC 65%/CSFf 35%)

- Yn ffurfio rhan o raglen Gofal Plant ehangach wedi'i dendro drwy bartneriaeth adeiladu Gogledd Cymru.

Buddsoddiad mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg tu hwnt i'r rhaglen fuddsoddi bresennol

Bydd y Cyngor yn ystyried prosiectau yn y dyfodol a buddsoddiad pellach mewn ystadau cyfrwng Cymraeg fel rhan o'i strategaeth ar gyfer band c Ysgolion yr 21ain ganrif LlC (ac unrhyw ffrydiau cyllido arall a fydd ar gael)

Targedau deng mlynedd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn cyflwyno darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddylunio eu

Cynlluniau yn seiliedig ar darged. Mae'n ofynnol ein bod yn gosod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd a ddisgwylir mewn plant blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir y Fflint.

Mae Cynghorau wedi'u grwpio gan Lywodraeth Cymru i wahanol gategorïau yn adlewyrchu'r gwahaniaethau a'r elfennau tebyg rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y ffactorau a ystyriwyd wrth grwpio yn cynnwys canran y dysgwyr a addysgir yn Gymraeg mewn ardal; modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a fabwysiadwyd a natur ieithyddol yr ardal. At y diben hwn mae Sir y Fflint wedi'i gosod yng Ngrŵp 4.

Grŵp 4: 12 y cant neu lai o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdod lleol yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18. Mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn yr awdurdodau lleol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targed ystod is a tharged ystod uwch ar gyfer Sir y Fflint. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 6 pwynt canran (ystod is) a chynnydd o 10 pwynt canran (ystod uwch) yn nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er y dylid trin yr ystod is fel yr isafswm y dylid ei gyflawni, ni ddylid trin yr ystod uwch fel yr uchafswm.

Targed deng mlynedd Sir y Fflint

Bydd angen ystyried cynyddu nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i rywfaint rhwng 225 a 295 dros gyfnod deng mlynedd y cynllun hwn.

2019/2020	**Targed 2031/2032 Ystod is**	**Targed 2031/2032 Ystod uwch**
Nifer	225	295
Canran (%)	13	17

Cymeradwyaeth y Cabinet:

Trefnir bod y Cynllun hwn yn cael ei ystyried gan Gabinet Cyngor Sir y Fflint a'i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu fel rhan o broses ymgynghori'r Cynllun (WESP) yn y gwanwyn 2022.

Niferoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint Medi 2021

Ysgol	Blwyddyn	Nifer ar y gofrestr	Capasiti	Canran (%)	Lleoedd Gwag (%)
Ysgol Maes Garmon	2017	506	711	71.17	28.83
Ysgol Gymraeg, Mornant	2017	32	81	39.51	60.49
Ysgol Terrig, Treuddyn	2017	53	93	56.99	43.01
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	2017	166	256	64.84	35.16
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug	2017	283	309	91.59	8.41
Ysgol Croes Atti, Y Fflint	2017	168	207	81.16	18.84
CYFANSYMIAU 2017		**1208**	**1657**	**72.90**	**27.10**
Ysgol Maes Garmon	2018	537	711	75.53	24.47
Ysgol Gymraeg, Mornant	2018	39	81	48.15	51.85
Ysgol Terrig, Treuddyn	2018	54	93	58.06	41.94
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	2018	170	256	66.41	33.59
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug	2018	287	309	92.88	7.12
Ysgol Croes Atti, Y Fflint	2018	214	207	103.38	-3.38
CYFANSYMIAU 2018		**1301**	**1657**	**78.52%**	**21.48%**
Ysgol Maes Garmon	2019	529	711	74.40	25.60
Ysgol Gymraeg, Mornant	2019	40	81	49.38	50.62
Ysgol Terrig, Treuddyn	2019	53	93	56.99	43.01
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	2019	155	256	60.55	39.45
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug	2019	294	309	95.15	4.85
Ysgol Croes Atti, Y Fflint	2019	223	207	107.73	-7.73
CYFANSYMIAU 2019		**1294**	**1657**	**78.09**	**21.91**
Ysgol Maes Garmon	2020	557	711	78.34	21.66
Ysgol Gymraeg, Mornant	2020	45	81	55.55	44.44
Ysgol Terrig, Treuddyn	2020	62	93	66.67	33.33
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	2020	150	256	58.59	41.41
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug	2020	296	309	95.79	4.21
Ysgol Croes Atti, Y Fflint	2020	231	207	111.59	-11.59
CYFANSYMIAU 2020		**1341**	**1657**	**80.93**	**19.07**
Ysgol Maes Garmon	2021	572	711	80.5	19.55
Ysgol Gymraeg, Mornant	2021	54	81	66.67	33.33
Ysgol Terrig, Treuddyn	2021	83	93	89.25	10.75
Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	2021	149	256	58.2	41.80
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug	2021	327	309	105.83	-5.83
Ysgol Croes Atti, Y Fflint	2021	234	207	113.04	-13.04
CYFANSYMIAU 2021		**1419**	**1657**	**85.63**	**14.37**

Deilliant **1:**

Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni awr?

Datganiad Ategol:

Mae gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y sir gysylltiadau cryf iawn gyda chylch chwarae sy'n gysylltiedig â Mudiad Meithrin, neu'n cael ei redeg yn uniongyrchol gan y Mudiad Meithrin. O'r saith darparwr cofrestredig, mae pump wedi'u cydleoli ar yr un safle â'r ysgol ac mae dau wedi eu lleoli yn y gymuned leol. Mae pob un o'r cylchoedd chwarae hyn hefyd wedi'u cofrestru gyda'r awdurdod lleol i ddarparu addysg rhan amser yn cynnig addysg i blant tair oed, a elwir yn lleol yn 'y Cyfle Cynnar'. Mae'r ddau ffactor yn gryfder wrth sicrhau bod bron pob plentyn yn trosglwyddo o ddarpariaeth cylch chwarae Cymraeg i mewn i ddosbarthiadau meithrin yr ysgol yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Mae un o'r grwpiau mwyaf diweddar i gael ei sefydlu, Cylch Garden City, sy'n union ar y ffin â Lloegr, wedi tyfu o ddarpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg i ddechrau, ac wedi dod yn ddarparwr Cyfle Cynnar. Yn flaenoriaeth barhaus y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn i gynyddu niferoedd y Cylch hwn sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae darpariaeth y Cylch ym Mwcle yn hynod lwyddiannus eisoes, yn denu nifer o blant y mae eu rhieni /gofalwyr yn nodi y byddant yn symud ymlaen i ddosbarth meithrin / addysg statudol cyfrwng Cymraeg.

Sefyllfa bresennol:

Cafodd yr holl geisiadau am lefydd ysgol cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint yn 2019-20 eu derbyn. Mae'r Cynnig Gofal Plant / Addysg Gynnar ar gael yn llawn ar draws Sir y Fflint ac mae'r holl geisiadau ar gyfer darpariaethau cyfrwng Cymraeg wedi bod yn llwyddiannus. Lleihaodd niferoedd mewn lleoliadau Mudiad Meithrin i ddechrau yn sgil cau oherwydd Covid-19 ond ar ôl ymgyrch cyhoeddusrwydd cryf mae niferoedd y disgyblion yn tyfu eto. Yn ystod y flwyddyn darparodd Mudiad Meithrin amrywiaeth o gefnogaeth ar gyfer rhieni a phlant gan gynnwys gweithgareddau ar-lein ac yn yr awyr agored

Nifer y plant sy'n mynd i Gylchoedd Meithrin

Nifer	**2015/16**	**2016/17**	**2017/18**	**2018/19**	**2019/20**
Nifer y plant	260	208	222	242	210

Canran y plant yn trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i ysgol gynradd cyfrwng Gymraeg

%	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
trosglwyddo i addysg gyfrwng Gymraeg	88.7	86.4	88.5	93.3	93.9

Beth rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Amcanion:

- Creu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal Bwcle/Mynydd Isa er mwyn manteisio ar gofrestru plant ifanc yn llwyddiannus yng Nghylch Bwcle a sefydlwyd yn 2019

- Holl ysgolion cyfrwng Saesneg Sir y Fflint yn cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei haddysgu yn eu darpariaeth yn sylweddol.
  Ysgolion yn symud ymlaen ar hyd y model categoreiddio sy'n cael ei benderfynu gan LlC.

- Ehangu gwasanaethau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint-

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Annog rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg ar ôl dosbarth meithrin drwy ddarparu darpariaeth o ansawdd da ar lefel statudol.
- Cyfathrebu'n glir ac yn gadarnhaol gyda rhieni / gofalwyr am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint

.

- Parhau i ddarparu cyllid ychwanegol i'r Mudiad Meithrin fel partner strategol y Cyngor i gefnogi swydd swyddog sy'n canolbwyntio ar gynyddu niferoedd mewn gofal plant cyfrwng Cymraeg, addysg blynyddoedd cynnar ac addysg lawn amser wedi hynny.

- Parhau i ddefnyddio Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a phartneriaethau eraill yn Sir y Fflint i hysbysebu sesiynau rhiant a phlentyn / plant bach fel Cymraeg i Blant a Sesiynau Cylchoedd Ti a Fi i gynulleidfa eang .

- Parhau i weithio gyda Mudiad Meithrin i hyrwyddo gwasanaethau blynyddoedd cynnar, gofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg.

- Gweithio gyda'r Tîm Gofal Plant a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant i sicrhau datblygiad a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg drwy Mudiad Meithrin.

Beth rydym yn disgwyl bod ar diwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Holl ysgolion cyfrwng Saesneg Sir y Fflint wedi cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei haddysgu.

- Nifer o ysgolion wedi symud ar hyd y model categoreiddio iaith

- Ysgol cyfrwng Cymraeg newydd wedi'i sefydlu yn ardal Bwcle / Mynydd Isa gan gynnwys y blynyddoedd cynnar a gofal cofleidiol gyda niferoedd y disgyblion yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

- Ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda gwasanaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg gwbl integredig yn cael eu darparu yn y prif drefi yn Sir y Fflint.

Data Allweddol

Key Data

Yn 2020-21, roedd cyfanswm o 84 plentyn 3 blwydd oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn cynrychioli 5% o'r holl blant 3 blwydd oed a addysgwyd.

Nifer a % y plant meithrin / tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg									
2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
105	6	115	6.5	125	7.1	130	7.3	140	7.9
2027 - 2028		2027 - 2028		2027 - 2028		2027 - 2028		2027 - 2028	
150	8.5	160	9	180	10.2	205	11.6	230	13.3

Deilliant 2

Mwy o blant dosbarth derbyn/pum oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni awr?

Datganiad Ategol:

Mae strategaeth Sir y Fflint ar gyfer cynyddu nifer y plant dosbarth derbyn / pum mlwydd oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un hirdymor. Mae'n canolbwyntio ar rieni yn dewis llwybr addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant ar ddechrau eu taith addysgol ar lefel y Cylch/lefel cylch chwarae. Mae'r dull hwn yn dibynnu ar ddarparu gwybodaeth o ansawdd i rieni newydd am fanteision cael eu plant yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, hyd yn oed os nad yw rhieni yn siarad Cymraeg eu hunain. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio ystod o strategaethau a gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid allweddol i ddarparu gwybodaeth o ansawdd i rieni am y gwasanaethau teulu / blynyddoedd cynnar hyn sydd ar gael ar draws yr awdurdod, i gefnogi eu hymgysylltiad â'r ddarpariaeth Gymraeg. Dim ond drwy helpu rhieni i wneud dewis gwybodus, trwy wneud gwasanaethau cyn-ysgol Cymraeg o safon uchel yn hygyrch a mynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau neu gael gwared ar rwystrau posibl, bydd mwy o rieni Saesneg eu hiaith yn ystyried addysg Gymraeg ar gyfer eu plant. Yn yr un modd, mae'n hanfodol bod rhieni o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith yn cydnabod gwerth bod yn ddwyieithog yn y byd heddiw ac yn anfon eu plant i'r system cyfrwng Cymraeg.

Sefyllfa bresennol:

Ar hyn o bryd mae gan Sir y Fflint bump o ysgolion cynradd ac un ysgol uwchradd sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg, wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws yr awdurdod:

- Ysgol Mornant, Picton Gwespyr *
- Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon
- Ysgol Croes Atti Y Fflint yn cynnwys ategiad Glannau Dyfrdwy yn Shotton
- Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug
- Ysgol Terrig, Treuddyn
- Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug (uwchradd)*

*Yn 2016, mae Ysgol Mornant ac Ysgol Maes Garmon wedi creu ffederasiwn - Cwlwm - i warchod a chryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal wledig yng ngogledd Sir y Fflint. Mae'r dull hwn wedi cael ei gymryd gan lywodraethwyr y ddwy ysgol gyda chefnogaeth lawn y Cyngor Sir, gan fod Ysgol Mornant wedi cyrraedd y sbardunau o fewn Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor ar gyfer adolygiad, ac i gau o bosibl.

Mae gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn y sir gysylltiadau cryf iawn gyda chylch chwarae sy'n gysylltiedig â Mudiad Meithrin, neu'n cael ei redeg yn uniongyrchol gan y Mudiad Meithrin. Mae darpariaeth y Cylch diweddar ym Mwcle yn hynod lwyddiannus yn denu nifer o blant y mae eu rhieni /gofalwyr yn nodi y

byddant yn symud ymlaen i ddosbarth meithrin / addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn hytrach na throsglwyddo i'r ysgol cyfrwng Saesneg agosaf.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cwblhau Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac Arolygon Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg lle bo'n briodol yn unol â'r rheoliadau, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer anghenion y dyfodol. Cynhaliwyd yr arolwg o alw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ddiwethaf yn 2013 ac fe ddefnyddiwyd y data i greu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardal Shotton drwy agor safle ategol Glannau Dyfrdwy fel rhan o Ysgol Croes Atti, y Fflint ym mis Medi 2014. Rydym yn bwriadu targedu ardaloedd lle bo canfyddiad o ddiffyg diddordeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ymgysylltu â rhieni / gofalwyr i hyrwyddo buddion dwyieithrwydd.

Roedd Cyngor Sir y Fflint yn weithredwr buan o gynllun peilot Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu 30 awr o ofal plant/addysg gynnar am ddim. Mae'r cynnig Gofal Plant yn cael ei gyflwyno ledled Sir y Fflint yn awr.

Yn Sir y Fflint, mae hwyrddyfodiaid i'r sector cyfrwng Cymraeg o dan saith oed yn cael eu gosod yn uniongyrchol yn y dosbarth Cyfnod Sylfaen priodol ar gyfer eu hoedran, gan fod gan yr awdurdod ddull 'trochi' ar gyfer dysgwyr 3-7 oed ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae mwyafrif helaeth y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg beth bynnag ac felly mae hwythau hefyd yn newydd i'r iaith. Mae dull strwythuredig a blaengar i ddysgu Cymraeg wrth i'r plant hyn symud trwy eu blynyddoedd Sylfaen.

Mewn ymateb i'r galw lleol am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Shotton, roedd yr awdurdod lleol yn gallu defnyddio adeilad ysgol a oedd yn rhydd oherwydd cyfuniad / adeilad newydd yn y sector cynradd cyfrwng Saesneg, i greu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Mae Ysgol Glannau Dyfrdwy, dan arweiniad a llywodraethwyr Ysgol Croes Atti, wedi gweithredu'n llwyddiannus ers 2014 a bydd disgyblion y Flwyddyn 6 gyntaf yn mynychu Maes Garmon yn 2022. Mae'r Cyngor a'r ysgol am nodi'r digwyddiad arwyddocaol hwn a hysbysebu'r cyflawniad fel rhan o'n strategaeth i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sir. Mae ymrwymiad a brwdfrydedd y Pennaeth a'r llywodraethwyr wedi bod yn ffactor allweddol o ran creu'r ddarpariaeth newydd hon a thynnu disgyblion o ardal draddodiadol Saesneg yn bennaf. Mae ymgorffori ac ymestyn y ddarpariaeth hon yn Shotton i gynyddu nifer y disgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae datblygu mwy o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg yn ardaloedd eraill y Sir yn parhau i fod yn rhan o strategaeth foderneiddio ysgolion yn y dyfodol.

Mae Cyngor Sir y Fflint angen sicrhau bod nifer digonol o leoedd ysgol o'r math cywir (a fyddai'n cynnwys cyfrwng Cymraeg), yn y lleoliadau cywir. Nid yw hyn yn syml

gan fod yna nifer fawr o leoedd gwag mewn ysgolion mewn rhai ardaloedd yn y sir, tra bod ardaloedd eraill ddim yn cael digon o leoedd i ateb y galw lleol. Mewn meysydd eraill, mae poblogaethau ysgol yn cael eu cynnal gan blant a phobl ifanc o'r tu allan i'r ardal leol trwy ddewis rhieni. Mae'r angen i gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio a'r isadeiledd ategol yn anghynaliadwy yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'r Cyngor, wrth ffurfio ei flaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf, yn cyfeirio at bolisïau cenedlaethol a lleol e.e. cynnal yr iaith Gymraeg, Derbyniadau, Cludiant a Chynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol); data demograffig; data rheoli asedau yn ymwneud ag addasrwydd a chyflwr a rhagamcanion disgyblion i ffurfio blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf, gan gynnwys y defnydd o gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif a chyllid moderneiddio ysgolion y Cyngor.

Yr her yn Sir y Fflint yw gormod o leoedd dros ben yn y sector cyfrwng Gymraeg yn hytrach na diffyg capasiti. Yr her yw i ddenu plant i'r ysgolion hyn drwy estyn allan i rieni / gofalwyr, tynnu sylw at y safonau uchel, adeiladau ysgol o ansawdd da ac yn addas ar gyfer y cwricwlwm newydd a buddion bod yn ddwyieithog.

Beth rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Amcanion:

- Ymestyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'r rhaglen adeiladu Cyfalaf

- Cwblhau datblygu safle Ysgol Glanrafon yn yr Wyddgrug
  Capasiti Llawn Amser Ysgol Glanrafon o 309-356 (Medi 2022) ar ôl cwblhau

- Cwblhau datblygiad Ysgol Croes Atti ar safle newydd yn Oakenholt.
  Capasiti Llawn Amser Croes Atti yn cynyddu o 207- 240 ar ôl adeiladu'r ysgol newydd, ond mae gan y potential i fod newydd y potensial i gael â chynhwysedd o 420 llawn amser er mwyn caniatáu ar gyfer ehangu yn y dyfodol.

- Datblygiad cyfalaf pellach ym Mwcle / Mynydd Isa ar gyfer darpariaeth gynradd newydd

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Parhau i weithio'n arloesol ac yn effeithiol gyda phartneriaid allweddol megis Menter Iaith Sir y Fflint, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Bwrdd Iechyd lleol, i ddarparu gwybodaeth o ansawdd i rieni am wasanaethau Cymraeg lleol. Enghraifft ragorol o'r gwaith ar

y cyd hwn yw datblygu gwefan y Sir yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a chyfeirio at bartneriaethau eraill.

- Mae'r Cyngor yn ceisio'n barhaus i adnabod ffyrdd arloesol o gynyddu nifer yr unigolion sy'n manteisio ar yr iaith Gymraeg yn rhwydwaith yr ysgol. Rydym yn parhau i ystyried darpariaeth dwy ffrwd iaith gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan Awdurdodau Lleol eraill yn yr ardal a ledled Cymru.

- Byddai creu modelau darpariaeth amgen yn rhoi dewisiadau amgen hyfyw a gallai gefnogi ardaloedd lle nad yw'r galw'n ddigonol i sefydlu ysgol newydd. Gallai hefyd ddarparu model amgen i gefnogi ysgolion sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n rhy fach i fod yn gynaliadwy dan Strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor ond lle bo rhywfaint o alw cyfyngedig am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Ymatebodd Fforwm CSCA Sir y Fflint i Ymgynghoriad drafft Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn y dyfodol yn 2021 a disgwyliwn am eu casgliadau. Rydym yn parhau i annog ysgolion cyfrwng Saesneg i ystyried newid eu statws iaith, yn seiliedig ar lefel y Gymraeg a ddefnyddir fel iaith cyfarwyddyd. Byddwn yn annog cyrff llywodraethu i gael deialog newydd gyda'r holl rhan-ddeiliaid yn eu hysgolion a chynllunio ar gyfer cynnydd yn narpariaeth y Gymraeg yn eu hysgol fel y bo'n briodol i'w cynlluniau gwella ysgolion yn enwedig lle bo athrawon wedi mynychu cynllun sabothol Llywodraeth Cymru ac sydd â'r sgiliau gofynnol i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth ddychwelyd i'r ysgol.

- Parhau i ddatblygu partneriaeth effeithiol gyda Llywodraeth Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint, Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a darparwyr gofal plant eraill i gyflwyno gwasanaethau hygyrch Cymraeg cyn-ysgol sydd o ansawdd uchel ac i hyrwyddo manteision o fod yn ddwyieithog ac annog rhieni i wneud dewis cynnar i gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

- Sicrhau bod darparwyr presennol o addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion sy'n perfformio'n dda (canlyniadau dysgwyr / adroddiadau Estyn / enw da lleol) i ddenu rhieni i ddewis cyfrwng Cymraeg ac yna sicrhau eu bod yn aros yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg.

Beth rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Llai o leoedd gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig yn y sir.

- Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd mewn dwy o drefi Sir y Fflint i ddisodli adeiladau presennol sy'n hen ac mewn cyflwr gwael i wella'r cynnig i rieni lleol a chynyddu capasiti i ddisgyblion.

- Ysgol gynradd newydd yn ardal Bwcle / Mynydd Isa sy'n cynnig dewis cyfrwng Cymraeg lleol.

- Mwy o ddisgyblion mewn dosbarthiadau derbyn cyfrwng Cymraeg.

Data Allweddol

Yn 2020-21, addysgwyd cyfanswm o 119 o blant 5 oed trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn cynrychioli 7% o'r holl blant 5 oed a addysgwyd.

Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg									
2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
130	7.6	140	8.2	150	8.8	160	9.4	170	10
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
185	10.9	190	11	205	12	220	13	255	15

Deilliant 3

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Ble rydym ni nawr?

Datganiad Ategol:

Fel rhan o'r strategaeth tymor hir i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith, mae Sir y Fflint yn monitro'r cyfraddau trosglwyddo yn ofalus ar bob pwynt pontio ar daith addysgol plentyn, trwy'r sector cyfrwng Cymraeg ac wedi ymyrryd pan fo cyfraddau trosglwyddo yn gostwng e.e. annog gweithgareddau penodol drwy ddarpariaeth yr Urdd lleol i hyrwyddo'r Gymraeg a'r addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Nod yr awdurdod yw sicrhau bod pob plentyn sy'n mynd i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn cwblhau eu haddysg mewn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae cael cysylltiadau agos iawn rhwng y cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg naill ai ar safleoedd ysgolion neu gerllaw o fewn y gymuned leol, yn annog cyfraddau da iawn o symud ymlaen i ddosbarthiadau meithrin yr ysgol. Mae darparu gofal cofleidiol yn y grwpiau hyn hefyd yn cefnogi rhieni sy'n gweithio, pan fydd y cynnig addysg feithrin ond yn rhan amser ac yn aml gall fod yn rhwystr i gyfranogiad llawn. Gan fod bob Cylch yn darparu addysg gynnar rhan amser i blant tair oed cyn derbyniadau meithrin, (Cyfle Cynnar) mae cysylltiadau cryf iawn rhwng swyddogion Mudiad

Meithrin lleol ac Athrawon Ymgynghorol y Cyfle Cynnar. Mae Mudiad Meithrin yn cael eu cynrychioli ac yn cymryd rhan weithredol ar y Bartneriaeth Gofal Plant a Datblygu Blynyddoedd Cynnar statudol a'r Bwrdd Partneriaeth y Cyfle Cynnar, gan sicrhau llais cryf ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a pherthynas waith ardderchog gyda'r awdurdod lleol. Mae'r cydweithio llwyddiannus yn helpu i ddarparu llwybr di-dor ar gyfer rhieni a'u plant i symud o'r cyfnod cyn-ysgol Cymraeg i ddarpariaeth addysg gynnar Cymraeg.

Mae dadansoddiad o'r cyfraddau dilyniant o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i'r ysgol uwchradd dros gyfnod o amser, wedi dangos bod y mwyafrif llethol o ddisgyblion yn aros o fewn y system iaith Gymraeg, ond mae rhai yn cael eu colli oherwydd amrywiaeth o resymau:

- teulu'n symud oherwydd ymrwymiadau gwaith
- rhai disgyblion ym mhen gogleddol yr awdurdod yn symud i Ysgol Uwchradd Prestatyn (cyfrwng Saesneg) yn hytrach nag Ysgol Glan Clwyd (cyfrwng Cymraeg)
- nifer fach iawn o ddisgyblion yn trosglwyddo i'r sector preifat (cyfrwng Saesneg) dros y ffin
- teuluoedd teithwyr yn tynnu eu plant o addysg uwchradd ar y pwynt pontio

I lawer o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug yw eu hysgol uwchradd o ddewis. Fodd bynnag, ym mhen gogleddol yr awdurdod, mae nifer o ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Glan Clwyd yn Sir Ddinbych felly mae hyn yn dal i olygu eu bod yn cael eu cadw o fewn y sector cyfrwng Cymraeg. Y gobaith yw y bydd y ffederasiwn rhwng Ysgol Mornant (sydd ar y ffin â Sir Ddinbych ac yn agos i Brestatyn) ac Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug, yn annog mwy o ddisgyblion i aros o fewn addysg cyfrwng Cymraeg a dewis mynychu unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Sir y Fflint. Fodd bynnag, fel yn yr holl brosesau derbyn, mae rhieni'n parhau i allu mynegi dewis am le mewn unrhyw ysgol uwchradd.

Cefnogaeth i hwyrddyfodiaid

Pan fydd hwyrddyfodiaid yn cyrraedd ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2, mae'r Cyngor wedi datblygu rhaglen iaith ddwys, 10 wythnos, sy'n cael ei darparu yn yr ysgol gan aelod o staff â'r sgiliau priodol, sydd wedi'i hyfforddi a'i gefnogi gan aelod o Dîm Ymgynghorol y Gymraeg yr Awdurdod Lleol. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chyflawni o fewn ysgol y plentyn ei hun, fel eu bod yn dysgu'r iaith wedi'u hamgylchynu gan eu cyfoedion ac amgylchedd cyfarwydd, yn hytrach na mynychu canolfan arbenigol mewn mannau eraill. Mae'r rhaglen hon wedi profi'n llwyddiannus iawn ac yn gost effeithlon gan nad yw nifer presennol yr hwyrddyfodiaid i Sir y Fflint yn gwneud model canolfan trochi yn ariannol hyfyw. Mae hefyd yn adeiladu gallu tymor hir o fewn yr ysgol i ddelio â hwyrddyfodiaid yn y dyfodol.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae rhaglen drochi wedi'i chynllunio'n bwrpasol i ddisgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dewis trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg (Trochi), felly byddai unrhyw hwyrddyfodiad i'r cyfnod hwn yn cael eu cynnwys yn y rhaglen hon.

Mae'r cynnig Gofal Plant/Addysg Gynnar ar gael yn llawn ar draws Sir y Fflint ac mae'r holl geisiadau ar gyfer darpariaethau cyfrwng Cymraeg wedi bod yn llwyddiannus. Lleihaodd nifer y derbyniadau ar gyfer darpariaeth Mudiad Meithrin i ddechrau yn sgil cau oherwydd Covid-19 ond ar ôl ymgyrch cyhoeddusrwydd cryf mae niferoedd y disgyblion yn tyfu. Yn ystod y flwyddyn darparodd Mudiad Meithrin amrywiaeth o gefnogaeth ar gyfer rhieni a phlant gan gynnwys gweithgareddau ar-lein ac yn yr awyr agored. Mae gwaith y Siarter Iaith yn parhau gyda 5 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg Sir y Fflint yn cyflawni statws Aur erbyn 2020. Dyma'r prif gyfrwng ar gyfer cynyddu safonau uwch yn y Gymraeg gan ganolbwyntio ar ymestyn defnydd y disgyblion o'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol. Bydd y gofyniad i gynnwys pob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys pob gweithlu, rhiant, llywodraethwr a'r gymuned yn sicrhau ymrwymiad a pherchnogaeth eang.

Fel sir sy'n ffinio â Lloegr, gyda nifer fach o ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae ehangu ar safon sgiliau iaith dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn flaenoriaeth allweddol i gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae gan Gynllun Cymraeg Campus ran allweddol yn y broses hon ac yn cael ei gefnogi gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg yn Sir y Fflint.

Sefyllfa bresennol:

- Ym mis Medi 2022 bydd y dysgwyr cyntaf o Ysgol Croes Atti yng Nglannau Dyfrdwy yn trosglwyddo i Ysgol Maes Garmon.

- Ym mis Medi 2021 trosglwyddodd 96.4% i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg (84.95% o ddisgyblion i Ysgol Maes Garmon a 11.49% o ddisgyblion yng ngogledd y sir i ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn Sir Ddinbych).

- Nifer yr hwyrddyfodiaid i ddarpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg:
- 2020/21 llai na 4 disgybl
- 2019/20 llai na 4 disgybl
- 2018/19 6 disgybl

- Nifer y disgyblion sydd wedi cyfranogi yn y rhaglen Drochi:
  - 2018- 12 disgybl
  - 2019- 8 disgybl
  - 2020- 9 disgybl
  - 2021 –14 disgybl

Cafodd yr holl geisiadau am lefydd ysgol cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint yn 2019-20 eu derbyn.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

- I gael mecanwaith yn ei le i fonitro cynnydd ieithyddol plant wrth iddynt drosglwyddo o un cyfnod yn eu haddysg statudol i un arall.

- Cael system yn ei lle i fonitro cyfraddau trosglwyddo rhwng un grŵp blwyddyn i un arall a chael system yn ei lle i fynd i'r afael â'r materion hyn yn brydlon

- Cael system yn ei lle ar draws ysgolion Sir y Fflint i hyrwyddo datblygiad ieithyddol o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd gyda rhieni / gofalwyr

- Sicrhau bod gan ysgolion gefnogaeth ddigonol ar waith i'w galluogi i ddiwallu'r canlyniadau addysgol ac ieithyddol gofynnol erbyn 2032.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Parhau i ddatblygu model clwstwr Cymaeg – gydag ysgolion yn cydweithio. Cymorth pwrpasol ar gyfer bob clwstwr.

- Defnyddio data o Gyfrifiad Gweithlu Ysgolion a ffynonellau eraill i barhau i nodi staff i dderbyn hyfforddiant Cymraeg.

- Cydweithio gydag awdurdodau agos eraill i sicrhau disgwyliadau cyson wrth baratoi ar gyfer gofynion Cymraeg y cwricwlwm newydd.

- Cydweithio gydag ysgolion i baratoi ac wrth weithredu gofynion Cymraeg y cwricwlwm newydd.

- Parhau i gefnogi'r gweithlu mewn ysgolion drwy waith Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn Sir y Fflint

- Bydd Fforwm CSCA yn ystyried y darlun cenedlaethol ar yr effaith y mae'r cynllun Athrawon Sabothol yn ei chael ar ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd athrawon Sabothol Sir y Fflint yn parhau i dderbyn cefnogaeth gan aelod o dîm Ymgynghorol y Gymraeg. Cysylltir â phenaethiaid ysgolion ag athrawon Sabothol sydd newydd ddychwelyd i asesu effaith ar safnoau'r Gymraeg.

- Gwneud defnydd effeithiol o grant trochi hwyr Llywodraeth Cymru i adeiladu ar ein rhaglenni iaith drochi trwy ddatblygu platfform ar-lein.

- Brandio ein darpariaeth a'n presenoldeb ar-lein er mwyn i'r cynradd a'r uwchradd fod yn fodern, o'r radd flaenaf a fydd yn denu ac yn ysbrydoli'r defnyddiwr i barhau â'i daith Gymraeg mewn modd cynlluniedig, hawdd mynd ato a thrylwyr.

- Bydd Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn parhau i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu darpariaeth iaith ddeuol yn Sir y Fflint ac yn aros am adolygiad o ddynodiad iaith y model ysgol (ymgynghoriad LlC Rhagfyr 2020).

- Mae cefnogaeth gref gan aelodau lleol ar gyfer ad-drefnu ysgolion ym Mynydd Isa, a fydd yn rhyddhau adeilad ysgol arall o safon dda i ddarparu addysg Gymraeg yn y dref fawr olaf yn Sir y Fflint.

- Disgyblion sy'n hwyrddyfodiaid i Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi'u hintegreiddio'n llawn

- Mae rhaglen 10 wythnos yr ALl yn cael ei hadolygu a'i haddasu'n gyson er mwyn sicrhau hygyrchedd ar gyfer dysgwyr.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Datblygu'r mecanwaith i fonitro cynnydd ieithyddol plant ymhellach wrth iddynt drosglwyddo o un cyfnod yn eu haddysg statudol i un arall.
  Adolygiad ar y pwynt 10 mlynedd.

- Wedi gwerthuso canlyniadau monitro cyfraddau trosglwyddo rhwng un grŵp blwyddyn i un arall a chael system yn ei lle i fynd i'r afael â'r materion hyn yn brydlon

- Datblygu system ar lefel clwstwr ymhellach, i hyrwyddo datblygiad ieithyddol o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd gyda rhieni / gofalwyr

- Canolfan drochi wedi'i sefydlu i gefnogi hwyrddyfodiaid

- Rhaglen Drochi Cyfnod Allweddol 3 well sy'n darparu 30 o ddisgyblion y flwyddyn o addysg gynradd cyfrwng Saesneg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg

- canlyniadau disgyblion yn y Gymraeg wedi gwella'n sylweddol ym mhob cyfnod.

Deilliant 4

Mae mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni nawr?

Datganiad Ategol:

Mae gan Sir y Fflint un Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg, Ysgol Maes Garmon sy'n cynnig cyfle i bob dysgwr astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf a phob pwnc, ac eithrio Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob dysgwr Cyfnod Allweddol 4 yn dilyn Llwybr Dysgu wedi'i anelu at 5 neu fwy o gymwysterau ar Lefel 1 neu Lefel 2. Mae 100% o ddysgwyr cyfnodau allweddol 3, 4 a 5 yn ymgymryd â chymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cynnal cwricwlwm eang yn gofyn am ddulliau newydd o gydweithio. Oherwydd lleoliad yr ysgol, mae cydweithio ar lefel CA4 ar gyfer cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn anodd iawn gan fod amser teithio yn gallu effeithio'n sylweddol ar amser cyswllt.

Ym mis Medi 2022 bydd y dysgwyr cyntaf o Ysgol Croes Atti yng Nglannau Dyfrdwy yn trosglwyddo i Ysgol Maes Garmon.

Yn CA5, gall trefniadau cydweithredol fod yn heriol i'w cyflawni a'u cynnal. O fis Medi 2021, roedd trefniant blaenorol disgyblion Ysgol Maes Garmon i deithio i Ysgol Morgan Llwyd neu Ysgol Glan Clwyd wedi dod i ben yn raddol ar gyfer lefel A mewn Drama ac Astudiaethau Cyfryngau. Gwneir defnydd helaeth o gyfleusterau cynadledda fideo yn Ysgol Maes Garmon sy'n caniatáu i diwtoriaid Coleg Meirion Dwyfor gyflwyno cyrsiau lefel A mewn Cymdeithaseg, Seicoleg, Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a'r Gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg. Ym mis Medi 2021 dechreuodd Ysgol Maes Garmon gyflwyno UG Sbaeneg fel rhan o gynllun E-sgol ac mae ganddynt gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu hyn ymhellach.

Mae 100% o'r holl ddysgwyr yn Ysgol Maes Garmon yn astudio ac yn sefyll arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yr her yw cynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol yn gyffredinol a rhaid cyflawni hyn trwy wella y canran sy'n dewis cyfrwng Cymraeg ar lefel ysgol gynradd a hefyd y disgyblion hynny sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd Gymraeg

Strategaeth bwysig yw cynyddu niferoedd y disgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n ymuno â'r cwrs Trochi i Ysgol Maes Garmon ar gyfer Blwyddyn 7. Bydd y math hwn o gynnydd ond yn cael ei sicrhau os gall pobl ifanc a rhieni fod yn argyhoeddedig bod tystiolaeth gadarn o'r posibilrwydd o ehangu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant pellach neu gyflogaeth os gall unigolyn gynnig rhuglder yn y Gymraeg.

Mae gwybodaeth leol yn awgrymu bod cynnydd mewn galw am siaradwyr Cymraeg yn y sectorau gofal a blynyddoedd cynnar ac mewn gwasanaethau cyhoeddus, e.e. addysg, iechyd, yr heddlu, gwasanaeth carchardai ac ati. Os gellir nodi cyrsiau priodol a'u hariannu drwy bartneriaeth rhwng darparwyr ôl-16 yn rhanbarth y gogledd ddwyrain gan gynnwys Coleg Cambria, byddai'r rhain yn creu llwybrau gyrfaol ar gyfer pobl ifanc ac yn eu cadw'n lleol ar gyfer y farchnad gyflogaeth lle mae bwlch sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Byddai hyn hefyd yn cynyddu'r cyfle i weithio gyda grwpiau fel yr Urdd neu'r Mudiad Meithrin i ddarparu profiad gwaith sy'n berthnasol i bobl ifanc i gefnogi eu hastudiaethau academaidd a chodi eu dyheadau i ddatblygu gyrfa lle byddai eu sgiliau iaith Gymraeg yn ased gwirioneddol.

Mae'r heriau diweddar yn cynnwys:

- cynnydd o ran darparu cwrs Trochi wedi'i effeithio gan gyfyngiadau Covid-19, fodd bynnag mae cymorth ar-lein wedi cael ei ddarparu gan dîm Ymgynghorol y Gymraeg yr Awdurdod wedi llenwi'r bwlch yn effeithiol.
- Recriwtio staff addysgu gyda sgiliau rhagorol i addysgu, yn enwedig i addysgu cyrsiau Cymraeg iaith gyntaf CA4 a CA5.
- recriwtio athrawon Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

Sefyllfa bresennol:

Roedd Covid-19 yn peri lefel ychwanegol o her ar gyfer rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg, i gefnogi dysgu gan eu plant yn y cartref. Darparwyd cefnogaeth ychwanegol drwy gynhyrchu rhaglenni astudio dwyieithog a thargedu dysgwyr unigol ar gyfer sesiynau dal i fyny. Trosglwyddodd 4 disgybl i ysgol uwchradd Cyfrwng Saesneg yn ystod cyfnod y pandemig. Roedd presenoldeb mewn gwersi ar-lein yn dda iawn wrth i staff cefnogi fonitro cofrestrau a chysylltu â theuluoedd i annog presenoldeb. Nodwyd y disgyblion diamddiffyn a'u gwahodd i'r ysgol yn rheolaidd. Bu hyn yn gymorth i gynyddu ymgysylltiad dros y cyfnod clo. Bydd canlyniadau profion Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu defnyddio i dargedu ymyraethau yn ystod yr Hydref 2021.

Cyflwynwyd rhaglen ddwys ar draws ysgolion cyfan o ran iaith, llythrennedd a'r Gymraeg yn ystod tymor yr haf 2021 i adennill yr addysg a'r iaith a gollwyd oherwydd y pandemig.

Ym mis Medi 2021, cofrestrodd nifer o ddysgwyr CA4 ar gwrs amaethyddiaeth L2 BTEC yng Ngholeg Llysfasi. Bydd TGAU Drama yn cael ei asesu am y tro cyntaf yn yr Haf 2022. Mae'r cwrs yn darparu cyfleoedd creadigol a mynegol ar gyfer dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn eu hannog i werthfawrogi diwylliant Cymru. Cam nesaf naturiol i'r cwrs fyddai cymhwyster Lefel 3 mewn Celfyddydau Perfformio.

Mae Ysgol Maes Garmon wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect iaith a elwir yn PCAI sydd wedi'i gynllunio i gynyddu defnydd iaith pobl ifanc yn y sector uwchradd. Yr amcanion allweddol yw adeiladu ar waith blaenorol y prosiect a sicrhau ei fod yn cysylltu â'r rhaglen Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd, ac yn adeiladu arni er mwyn cynnig parhad o gefnogaeth i ddisgyblion yn ystod eu taith addysgol. Bydd hyn yn flaenoriaeth barhaus trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i sicrhau'r effaith fwyaf ar safonau'r Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan bobl ifanc yn yr ysgol uwchradd.

Sefyllfa bresennol Sir y Fflint a thargedau sy'n ymwneud â chanran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (cymwysterau iaith gyntaf), yn ymwneud â disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer:-

- o leiaf dau gymhwyster pellach Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.
- o leiaf pum cymhwyster pellach Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Noder bod yr holl ddata yma'n ymwneud ag un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Maes Garmon. Nid oes unrhyw fath arall o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint e.e. dwy ffrwd.

	Y Sefyllfa Gyfredol 2021/22	**2022/2023**	**2023/2024**	**2024/2025**
a) Astudio o leiaf 2 Gymhwyster Lefel 1 neu 2	102 o ddisgyblion	91 disgybl	89 disgybl	109 disgybl
b) Astudio o leiaf 5 cymhwyster Lefel 1 neu 2	102 o ddisgyblion	91 disgybl	89 disgybl	109 disgybl

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Nodau

- Cynnal 100% o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf a thrwy gyfrwng y Gymraeg (gweler y niferoedd targed isod)

- Parhau i sicrhau bod y nifer uchaf o ddisgyblion cynradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn Sir y Fflint neu awdurdodau lleol cyfagos drwy hyrwyddo buddion addysg cyfrwng Cymraeg

- Ffederasiwn wedi'i wreiddio rhwng Ysgol Maes Garmon ac Ysgol Mornant, yn sicrhau niferoedd uwch o ddisgyblion cynradd yn trosglwyddo rhwng y ddwy ysgol ym Mlwyddyn 7

- Cynyddu nifer y disgyblion cynradd Cymraeg ail iaith (targed o 30) sy'n trosglwyddo drwy'r rhaglen Trochi i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Parhau i wella ansawdd yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr holl feysydd pwnc, drwy ddatblygiad proffesiynol staff, trwy gysylltu â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol, GwE, a thrwy gymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn y rhanbarth. Bydd hyn yn gymorth i gyflawni safonau uchel ar draws ystod o ddangosyddion CA4.

- Ymestyn y rhaglen Drochi yn Ysgol Maes Garmon i ymgysylltu â disgyblion Blwyddyn 5 mewn ysgolion cynradd, yn arbennig disgyblion Mwy Galluog a Thalentog (MGaTh) yn y Gymraeg. Hefyd ymestyn yr ymyrraeth Trochi i flwyddyn 4 hefyd er mwyn ysgogi diddordeb y disgyblion a rhieni mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

- Datblygu strategaeth recriwtio mewn partneriaeth â'r ysgolion i gynyddu'r niferoedd yn y gweithlu addysg gyda'r sgiliau Cymraeg priodol.
  Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun Nodyn Briffio Comisiynydd y Gymraeg 'Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru' (Awst 2020) i ddiwallu ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint yn y dyfodol

- Monitro effeithiolrwydd gwefan y Cyngor i hyrwyddo addysg Cyfrwng Cymraeg.

- Cydweithio gyda darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon mewn perthynas â hyfforddi athrawon gyda sgiliau Cymraeg yn seiliedig ar dargedau cenedlaethol a lleol Cymraeg 2050.
- Cefnogi cydweithio parhaus rhwng Ysgol Maes Garmon ac ysgolion uwchradd Cymraeg mewn awdurdodau cyfagos.
- Cefnogi cyfranogiad pellach Ysgol Maes Garmon ym mhrosiect E-sgol sy'n ceisio ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ôl-14 astudio cyrsiau na fyddai ar gael iddynt fel arall ar ôl cyflwyno Lefel UG Sbaeneg ym mis Medi 2021.

Beth rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Cynnal 100% o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf a thrwy gyfrwng y Gymraeg
- Uchafswm o ran nifer y disgyblion cynradd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n parhau i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint neu Awdurdodau Lleol ac adlewyrchu twf mewn darpariaeth gynradd.
- Cynyddu nifer y disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg (30) sy'n trosglwyddo drwy'r rhaglen Drochi i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Data Allweddol

Nifer a chanran y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
91	100%	89	100%	109	100%	114	100%	110	100%
2027 - 2028		**2028 - 2029**		**2029 - 2030**		**2030 - 2031**		**2031 - 2032**	
110	100%	110	100%	110	100%	110	100%	110	100%

Deilliant 5

Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Ble rydym ni nawr?

Datganiad Ategol:

Mae pum ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg (Ysgol Maes Garmon) yn yr awdurdod. Mae'n bwysig nodi bod mwyafrif (dros 83% o ddata adroddiadau Estyn 2015-2020) o'r dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn dod o aelwydydd nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae'n rhaid i waith cynllunio i godi safonau Cymraeg iaith gyntaf mewn ysgolion ystyried hyn.

Bydd codi dyheadau pobl ifanc i fod yn ddwyieithog, a'r manteision a ddaw gyda hyn i ddatblygu gyrfa, yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd Sir y Fflint yn gweithio gyda'i bartneriaid fel Coleg Cambria, yr Urdd a Menter Iaith i ddarparu gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o well cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y rhai â sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle e.e. ysgolion, y bwrdd iechyd lleol, y gwasanaeth carchardai, gwasanaethau'r heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans, darpariaeth y blynyddoedd cynnar, gwasanaethau gofal ar gyfer yr henoed, llywodraeth leol a

chyflogwyr lleol yn y sector preifat. Mae gan Wasanaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint rôl ganolog i chwarae yn hyn hefyd, oherwydd natur ei ddarpariaeth a lefelau uchel o gysylltiad â phobl ifanc yn y sectorau Cymraeg a Saesneg ar draws yr awdurdod.

Sefyllfa bresennol:

Mae'r Siarter Iaith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi cael effaith fawr ac mae cyflawni safon Aur yn yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn llwyddiant. Mae rhaglen gyflwyno'r Siarter ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg, Cymraeg Campus, dros y tair blynedd diwethaf, wedi bod yn rhan hanfodol o gynllun yr awdurdod i wella ansawdd y Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg. Mae holl ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn Sir y Fflint wedi mabwysiadu fframwaith Cymraeg Campus. Mae 23 o ysgolion wedi cyflawni Gwobr Efydd ac 1 ysgol wedi cyflawni'r wobr Arian.

Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg hefyd yn darparu ystod o gyfleoedd ar gyfer dysgwyr i ymarfer ac ehangu eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Mae yna hefyd amrywiaeth o weithgareddau a ddatblygwyd rhwng yr Urdd, Menter Iaith a Gwasanaeth Ieuenctid yr awdurdod ac mae clybiau yn y gymuned er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n ehangach na dim ond mewn ysgolion. Bydd y cyfleoedd hyn yn parhau i gael eu gwella a'u darparu ledled Sir y Fflint.

Mae Gwasanaethau Ieuenctid Integredig Sir y Fflint wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'r bobl ifanc ac i ganiatáu cyfleoedd iddynt ffynnu drwy'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru a bod yn falch ohonynt. Gyda phenodiad rôl newydd Swyddog Llawn Amser y Gymraeg, mae'r Ddarpariaeth Ieuenctid Integredig yn parhau â'u hymrwymiad i symud tuag at wasanaeth sy'n gwbl ddwyieithog erbyn 2032.

Cymorth Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion.

Yn ystod cyfyngiadau Covid, mae adnodd electronig 'Gwaith Cartref Cymraeg' wedi'i gynhyrchu gan yr Uned Iaith Gymraeg, Cyngor Sir Gaerfyrddin. Fel yr anogwyd gan Lywodraeth Cymru i rannu adnoddau, mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhieni, ysgolion a Mudiad Meithrin ac wedi mabwysiadu'r adnodd a'i bersonoli ar gyfer ei ddefnyddio gyda rhieni/gofalwyr Sir y Fflint. Mae'r adnodd wedi mynd i holl ysgolion. Credwn y bydd yn annog rhieni i ddewis addysg Gymraeg ar gyfer eu plant.

Urdd Gobaith Cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad plant a phobl Ifanc cenedlaethol gwirfoddol sydd yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg ac ennill profiadau tu allan i'r dosbarth ac yn eu cymunedau. Mae'r holl gyfleoedd yma ar gael ac yn amrywiaeth o weithgareddau lleol, sirol, rhanbarthol a Chenedlaethol

Mae'r Urdd yn bartner allweddol i wireddu'r CSCA o fewn Awdurdod Lleol, ac yn brif ddarparydd cyfleoedd allgyrsiol a chymunedol sydd yn cynyddu defnydd y Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc.

Cymunedol

- Mae'r Swyddogion yn darparu cyfleoedd celfyddydau cymunedol gydol flwyddyn
- Adrannau, aelwydydd a chlybiau cymunedol i blant a phobl ifanc i fwyhau a defnyddio'r Gymraeg
- Ddarpariaeth ddigidol

Chwaraeon

- Clybiau cymunedol
- Cystadlaethau chwaraeon, sirol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Gwyliau Chwaraeon rhanbarthol a Chenedlaethol
- Gweithgareddau ddigidol
- Darpariaeth addysg llythrennedd corfforol i ysgolion

Gwersylloedd Yr Urdd

- Llangrannog, Glan-llyn, Caerdydd a Phentre Ifan
- Profiadau preswyl sydd yn cynnig profiadau ddysgu, hwyl ac atgofion cadarnhaol am y defnydd o'r Gymraeg

Eisteddfod a'r Celfyddydau

- Eisteddfod Cylch a Sir sydd yn cynnig cyfleodd i ysgolion a disgyblion i brofi'r celfyddydau, datblygu hunan hyder a dysgu mwy am ddiwylliant a llenyddiaeth Cymru.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a bod yn rhan o ŵyl Genedlaethol
- Ddarpariaeth ddigidol gelfyddydol, cerddoriaeth, theatr, celf a chefn llwyfan

Prentisiaethau cyfrwng Cymraeg

- Dilyniant addysgol a chyflogaeth i bobl ifanc sydd am ennill cymwysterau a phrofiad yn y Gymraeg

Rhyngwladol

- Neges Heddwch ac Ewyllys Da - yn estyn llaw o gyfeillgarwch a thrafod pwyntiau o bwys i bobl ifanc ar lefel byd eang
- Prosiectau penodol gyda phartneriaid yn Iwerddon, America a Japan
- Cyfleoedd gwirfoddoli a chyfnewid rhyngwladol.

Adnoddau

- Cylchgronau digidol yr Urdd

Swyddog Ieuenctid

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cyflogi Swyddog Iaith o fewn ei Ddarpariaeth Ieuenctid Integredig sy'n gyfrifol am sefydlu dull cryf a chydlynol o weithredu, hyrwyddo ac ymestyn y defnydd a wneir o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc yn eu cymunedau. Bwriad y swydd yw annog a chefnogi pobl ifanc i fynegi eu hunain yn hyderus yn ddwyieithog yn eu hamser hamdden a chymdeithasol.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Amcanion:

- Staff y Cyngor sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â rhieni / gofalwyr, yn cefnogi ein negeseuon allweddol o ran addysg cyfrwng Cymraeg

- Cynnydd cryf tuag at wasanaeth Darpariaeth Ieuenctid Integredig gwbl ddwyieithog erbyn 2032- drwy rôl Swyddog y Gymraeg

- Dulliau o gyfeirio rhieni / gofalwyr at gefnogaeth addas ar-lein ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg wedi'u datblygu ymhellach

- Cyfleoedd wedi'u mapio'n glir i blant oed ysgol ddefnyddio eu Cymraeg trwy weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill (Gwasanaethau Ieuenctid yr ALl, yr Urdd, Menter Iaith ac eraill e.e. Capel Bethesda)

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Cefnogi cyrff llywodraethu ysgolion i atynnu, cynnal a datblygu staff sydd wedi ymrwymo i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.

- Parhau i hyrwyddo'r Siarter Iaith i wella a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i ddysgu ffurfiol, ei hymgorffori ym mhobl ifanc heddiw fel eu bod yn cynnal y defnydd o'r iaith yn y dyfodol ac yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant pan fyddant yn dod yn rhieni. Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a Cydlynydd Siarter Iaith i gydweithio gydag ysgolion mewn perthynas â throsglwyddiad i'r fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer datblygu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg.

- Cydweithio gyda darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon mewn perthynas â hyfforddi athrawon gyda sgiliau Cymraeg yn seiliedig ar dargedau cenedlaethol a lleol Cymraeg 2050.

- Cydweithio ag awdurdodau cyfagos

- Cydweithio gydag awdurdodau eraill yng Ngrŵp 4 (gyda'r un targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg); Pen-Y-Bont Ar Ogwr, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd

- Bydd Swyddog y Gymraeg yn y Gwasanaeth Ieuenctid Integredig yn:
- cefnogi datblygiad gwersyll yr Haf sy'n ddwyieithog
- cyflwyno uned Gymraeg fel rhan o wobr Arweinwyr Ifanc
- Cefnogi cynlluniau Chwarae'r haf i gyflwyno'r Gymraeg heb effeithio ar hawl y plentyn i chwarae - cynhaliwyd Archwiliad y Gymraeg yn ystod Haf 2021 ac mae'r staff yn awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg
- Cefnogi sefydlu Clwb Ieuenctid Cymraeg yn ardal Wledig y gogledd
- Creu adnoddau Cymraeg i'r holl glybiau ieuenctid eu defnyddio
- Mewn ymgynghoriad â'r tîm Darpariaeth Ieuenctid Integredig, sicrhau bod yr holl waith papur a ddefnyddir gyda'r bobl ifanc yn ddwyieithog.
- Meithrin perthnasau cryf gyda chyrff hyfforddi i drafod pwysigrwydd y Gymraeg o fewn gwaith ieuenctid yn Sir y Fflint.
- Sicrhau bod yr holl staff yn hyderus yn cyfeirio pobl ifanc at adnoddau a chefnogaeth yn y Gymraeg.
- Cefnogi ac ailsefydlu Cyngor Ieuenctid Sir y Fflint gydag ethos gwbl ddwyieithog.
- Arwain y defnydd o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol i sicrhau cydbwysedd rhwng y ddwy iaith.
- Datblygu ac arwain Rhaglen Wirfoddoli newydd sydd â'r Gymraeg a diwylliant yn rhan ganolog.
- Fel rhan o'r rhaglen byddwn yn ceisio recriwtio pobl ifanc fel Llysgenhadon Cymraeg Cymunedol mewn partneriaeth â Chynghorau Cymuned a'r Gwasanaethau Ieuenctid.

Beth rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Holl staff yr ALl yn cefnogi dwyieithrwydd yn Sir y Fflint; mae Sir y Fflint yn weithle sy'n cefnogi a gwerthfawrogi sgiliau siarad Cymraeg

- Pob ysgol gynradd i fod wedi gwreiddio'r Siarter Iaith yn llawn a phob ysgol uwchradd i fod wedi cychwyn ar daith y Siarter Iaith; gan adeiladu ar lwyddiant y gwaith a wnaed yn yr ysgolion cynradd. Tîm Ymgynghorol y Gymraeg a chydlynydd Siarter Iaith i weithio ochr yn ochr ag ysgolion i sicrhau bod y momentwm hwn yn cael ei gynnal ar bob lefel ac ym mhob ysgol

- Darpariaeth Ieuenctid Integredig gwbl ddwyieithog
- Rhaglen wirfoddoli ieuenctid sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cynlluniau chwarae a gweithgareddau ieuenctid gan blant a phobl ifanc
- Mwy o bresenoldeb ar y we a chyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'i ddarparu gan y Cyngor

Deilliant 6

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Ble rydym ni nawr?

Datganiad Ategol:

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr holl blant gan gynnwys y rhai gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) drwy ein darpariaeth a mynediad at wasanaethau cefnogi arbenigol ac ymyrraeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dyletswyddau a roddir arnynt gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) i weithredu system ADY ddwyieithog ac i barhau i adolygu darpariaeth dysgu ychwanegol, gan roi ystyriaeth briodol i ddigonolrwydd y ddarpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r gofyniad i sicrhau fod hyn ar gael lle bynnag y bo modd. Bydd manylion o ran sut bydd y Cyngor yn diwallu'r dyletswyddau hyn yn cael eu cyfeirio fel rhan o ddogfennau a strategaethau allweddol gan gynnwys Fframwaith Polisi ADY a Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a gwybodaeth bellach o ran camau gweithredu mewn perthynas â gweithrediad ALNET wedi'u nodi yng Nghynllun Trawsnewid ADY y Cyngor.

Mae pwysigrwydd datblygu gwasanaethau arbenigol dwyieithog i gefnogi ein hamcanion yn cael eu cydnabod ac mae staff yn cael eu hannog a'u hwyluso i ymgysylltu â chyrsiau Cymraeg sy'n cael eu cynnig drwy'r Cyngor a bu niferoedd da yn cofrestru ar gyfer y rhain. Os nad oes staff dwyieithog ar gael, bydd y Cyngor yn parhau i froceru mynediad gan Gynghorau cyfagos.

Mae'r galw am ddarpariaeth hynod arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymateb rhagweithiol i hyn wrth ystyried yr achosion hyn ar seiliau unigol, a gweithio gyda darparwyr i ddatblygu pecynnau priodol. Mae datblygiad y gwasanaethau isranbarthol e.e. cymorth synhwyraidd (nam ar y golwg a nam clyw) wedi hwyluso mynediad i staff cyfrwng Cymraeg ar draws Sir y Fflint ac awdurdodau cyfagos. Bydd datblygu partneriaethau mwy helaeth ar draws y rhanbarth mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Lles, i sicrhau darpariaeth effeithiol o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn parhau i fod yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd y Cyngor yn comisiynu arolwg o'r ddarpariaeth o wasanaethau ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, i nodi lle ceir darpariaeth gyfredol effeithiol, ond hefyd i nodi unrhyw ddiffygion fel y gellir rhoi sylw i hyn. Mae'n debygol y bydd angen i ddarpariaeth gwasanaethau gael eu datblygu ar sail ranbarthol er mwyn bod yn gynaliadwy oherwydd y niferoedd isel a'r angen i sicrhau bod y lleoliadau yn cynnig ymgysylltiad cyfoedion addas a chyfleoedd addysgol.

Mae gan Sir y Fflint adnodd cyffredinol ar gyfer disgyblion oed cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, wedi ei seilio o fewn un o'i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r adnodd hwn yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu. Dirprwywyd cyllid i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddarparu adnoddau ychwanegol i ddisgyblion o fewn CA3/4/5.

Mae cynnal a chadw lleoliadau ysgol o fewn ardal plentyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor, ac mae'r gwaith i ddatblygu gwasanaeth allgymorth fel rhan o'n Portffolio darpariaeth Cyfeirio Disgyblion (Plas Derwen) i gefnogi ysgolion i gwrdd ag ystod o anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae pwysigrwydd argaeledd staff cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r ddarpariaeth hon yn cael ei gydnabod.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella sgiliau staff mewn ysgolion i sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gallu ymateb i ystod eang o anghenion a gweithio mewn cydweithrediad â GwE i gynnig rhaglen briodol.

Mae mecanwaith cyllid dirprwyedig wedi cael ei weithredu i gefnogi ysgolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â darpariaeth ac ymyrraeth briodol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gynnwys y rheiny yn y sector cyfrwng Cymraeg a bydd hyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cefnogi ysgolion i gyflawni hyn.

Sefyllfa bresennol:

- Mae'r sefyllfa yn parhau'r un fath o ran darpariaeth arbenigol, gydag Adnodd Cyffredinol Cyfnod Allweddol 2 yn parhau i fod yr unig Adnodd Cyfrwng Cymraeg ar draws y sir. Mae'r defnydd o leoedd o fewn yr Adnodd yn isel gan awgrymu efallai y bydd angen model amgen i ddiwallu anghenion ein disgyblion yn effeithiol.

- Mae lefel sgiliau'r Gymraeg wedi cynyddu'n sylweddol ar draws y Gwasanaeth Cynhwysiant a Datblygiad, gyda 100% o wasanaethau wedi cael o leiaf un aelod o staff gyda rhywfaint o sgil yn y maes (Archwiliad 2021). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r archwiliadau a gynhaliwyd yn 2011 a 2016 lle bo hyn yn wir ar gyfer 83% o'r gwasanaethau.
  Bu cynnydd yn nifer y staff sy'n nodi eu bod yn siaradwyr rhugl y Gymraeg (10 yn 2021, 8 yn 2016 a 9 yn 2011) ac yn fwy nodedig, nifer y rhai sy'n nodi fod ganddynt rywfaint o allu yn y Gymraeg (38 yn 2021, 13 yn 2011 a 8 yn 2011). Mae 12 aelod arall o staff yn ceisio derbyn mynediad at hyfforddiant i wella eu lefel o ran sgiliau yn y maes.

Heriau sy'n weddill

- Recriwtio personél allweddol arbenigol e.e. Seicolegwyr Addysgol yn parhau i fod yn heriol iawn, yn enwedig rhai gyda sgiliau Cymraeg priodol.
- Datblygu sgiliau'r aelodau o staff gyda rhywfaint o sgiliau Cymraeg i fod yn hyderus ac yn ddigon rhugl i allu ymgysylltu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Diwallu gofynion cyfrwng Cymraeg darpariaeth dysgu ychwanegol ein plant a phobl ifanc gydag ADY fel yr amlinellwyd yn yr ALNET mewn modd sy'n ystyrlon, cynaliadwy ac ariannol hyfyw.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

- Gweithredu dyletswyddau newydd a gofynion ALNET ar draws y Cyngor a gan ein hysgolion erbyn 2024.

- Cael system glir ac wedi'i hymgorffori ar waith mewn perthynas ag adolygu Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (ALP) erbyn 2022

- Strategaeth i sicrhau lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n ofynnol, ymgysylltu â chydweithrediad rhanbarthol lle bo'n briodol erbyn 2022.

- Ystod o ddarpariaeth arbenigol wedi'i gynllunio / ar waith i ddiwallu anghenion dynodedig plant a phobl ifanc gydag ADY erbyn 2026

- Darparu strwythur i wella sgiliau Cymraeg aelodau'r tîm Cynhwysiant canolog drwy gynllunio yn dilyn archwiliad yn yr hydref 2021 gyda'r nod o sicrhau o leiaf un aelod rhugl o staff ym mhob maes gwasanaeth erbyn 2022.

- Parhau i ddatblygu sgiliau Cymraeg athrawon ADY a chymorthyddion addysgu, gan gynnwys staff ym Mhlas Derwen, drwy ddatblygiad proffesiynol pellach a ddarparwyd gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg.

- Datblygu sgiliau Cymraeg staff Plas Derwen ymhellach.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Gweithredu Cynlluniau Trawsnewid ADY yn lleol a rhanbarthol i weithredu'r system newydd yn unol â therfynau amser LlC.
- Parhau i gynyddu mynediad at gyngor ac ymyrraeth fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg, gan yr amrywiaeth o wasanaethau arbenigol, naill ai drwy recriwtio neu ddatblygiad unigol, neu drwy ymestyn y cydweithio rhanbarthol.
- Darparu darpariaeth allgymorth drwy Blas Derwen (Portffolio Unedau Atgyfeirio Disgyblion) i gefnogi dysgwyr i gadw eu lleoliadau prif ffrwd.
- Parhau i ddatblygu sgiliau cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol a staff mewn ysgolion, i gynyddu arbenigedd ac ymwybyddiaeth o sut y gellir diwallu ystod eang o anghenion a gyflwynir gan ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y modd gorau posibl.
- Gwella'r cynnig hyfforddi drwy ddatblygu modiwlau e-ddysgu ADY.
- Gweithio'n hyblyg ac yn gydweithredol gyda phlant / teuluoedd, asiantaethau partner a darparwyr i ddatblygu darpariaeth mewn ymateb i'r galw. Sicrhau bod disgyblion gydag ADY yn cael mynediad at ddarpariaeth ar-lein gydag adnoddau Cymraeg gyda'u cyfoedion yn yr ysgol.
- Defnyddio arbenigwyr addysg Gymraeg o awdurdodau cyfagos yn ôl yr angen ar gyfer prosesau ADY.
- Gweithlu Cynhwysiant yr ALl yn parhau i gael mynediad at gefnogaeth gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg yn Sir y Fflint gydag adnoddau / strategaethau dysgu ynghyd â datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain.
- Gweithlu Cynhwysiant yr ALl yn mynychu hyfforddiant Cymraeg fel rhan o Reoli Perfformiad.
- Comisiynu arolwg o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ADY i lywio cynllunio gwasanaethau ac adrodd i fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Ymgysylltu â Thîm Ymgynghorol y Gymraeg yn Sir y Fflint i ddadansoddi canlyniadau'r Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant a nodi ystod o ymyraethau i sicrhau datblygiad sgiliau pellach ar draws y timau.
- Tîm Ymgynghorol y Gymraeg Sir y Fflint i ddarparu datblygiad proffesiynol pellach i staff ADY mewn ysgolion

Beth rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Cynllunio ar gyfer olyniaeth a hyfforddiant wedi arwain at fwy o argaeledd o ran staff gyda'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol berthnasol a'r gallu i ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddiwallu galw'r gwasanaeth.

- Cydraddoldeb mynediad at wasanaethau arbenigol a darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gydag ADY.

Deilliant 7

Cynydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni nawr?

Datganiad Ategol:

Mae Sir y Fflint yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn ar ddarparu neu gomisiynu rhaglenni datblygiad proffesiynol o safon uchel ar gyfer ei staff mewn ysgolion ar bob lefel. Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg (WAT) yn darparu ystod o raglenni hyfforddiant penodol ar gyfer y sectorau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i athrawon a staff cynorthwyol yn y cyfnod cynradd; rhain wedi'u i athrawon a staff cymorth yn y cyfnod cynradd, wedi'u teilwra ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 Uwch ac Is. Dyma yw prif gynheiliad dull y Cyngor i sicrhau gweithlu ddigon cymwys o ran iaith a chodi safonau cyflawniad disgyblion yn y Gymraeg.

Mae penaethiaid yn parhau i adnabod pan fo angen datblygiad proffesiynol ar gyfer staff er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg a'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bydd yr ymagwedd hon yn parhau dros gyfnod oes y Cynllun hwn. Bydd Penaethiaid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r broses rheoli perfformiad i ganolbwyntio ar y Gymraeg ac i gynnwys blaenoriaethau gwellant ar gyfer y Gymraeg yn eu cynlluniau datblygu ysgol.

Bydd angen talu sylw penodol i ddatblygiad proffesiynol staff yn y sector uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae arweinwyr ysgolion yn parhau i fynegi pryderon am yr anhawster o ran recriwtio staff i'r sector cyfrwng Saesneg gyda'r sgiliau iaith a methodoleg priodol i addysgu Cymraeg a chyflawni safonau uchel o ran canlyniadau disgyblion.

Bydd yr awdurdod lleol yn ceisio gweithio mewn cydweithrediad agos â GwE ac awdurdodau cyfagos eraill, i gynyddu'r cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer staff i ddarparu'r fanyleb newydd ac mae rhwydweithiau lleol eisoes yn cynnal cyfarfodydd proffesiynol i rannu gwybodaeth ac arferion gorau.

Mae cyfleoedd estynedig ar gyfer datblygiad proffesiynol mewn sgiliau iaith Gymraeg drwy ddefnyddio'r cynlluniau Sabothol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Sir y Fflint, ac yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'r rhaglen gyflwyno. Sir y Fflint a Wrecsam oedd yr awdurdodau cyntaf yng Ngogledd Cymru i dreialu rhaglen sabothol ar gyfer Cymorthyddion Dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a ddatblygwyd gan Ganolfan Bedwyr a LlC ac a gyflwynir rhyngddynt ac aelod o Dîm Ymgynghorol y Gymraeg Sir y Fflint. Bydd hyn yn parhau i gael ei ddatblygu yn ystod cefnogaeth a hyfforddiant barhaus i ysgolion gan Athrawon Ymgynghorol y Gymraeg.

Un o flaenoriaethau allweddol y cynllun strategol hwn fydd codi ymwybyddiaeth llywodraethwyr ysgol o strategaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a sut y bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y targed hwn. Fel sir ar y ffin mae gennym rai heriau o ran annog llywodraethwyr ysgolion a rhieni i weld gwerth dwyieithrwydd. Ond mae gennym sawl esiampl o gefnogaeth gymunedol gadarnhaol e.e. nifer y disgyblion sydd yn Ysgol Glannau Dyfrdwy yn Shotton yn awr.

Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a chymwysterau drwy hyfforddiant wedi'i dargedu, rhannu gwybodaeth reolaidd a monitro darpariaeth a deilliannau yn y Gymraeg ym mhob ysgol. Mae arweinydd gweithredol CSCA Sir y Fflint wedi mynychu cyfarfod Cymdeithas Llywodraethwyr Sir y Fflint lle bo rôl y cynllun sabothol wedi'i drafod yn fanwl.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol cenedlaethol, defnydd o lwyfan dysgu ar-lein Llywodraeth Cymru (Hwb) a chefnogaeth apiau digidol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r Gymraeg a gyflawnir gan ddisgyblion a chymhwysedd iaith y gweithlu. Mae Tîm Ymgynghorol y Gymraeg yn Sir y Fflint eisoes yn defnyddio Hwb fel rhan o'u hyfforddiant lleol drwy greu rhwydweithiau Hwb lle y gall cyfranogwyr cyrsiau rannu adnoddau a darparu cefnogaeth barhaus i'w gilydd e.e. addysgu sgiliau Cymraeg ar gyfer Cymorthyddion Addysgu. Mae datblygiad apiau i gefnogi'r Gymraeg a methodoleg addysgu yn cael eu defnyddio fwy a mwy i ymgysylltu â staff a disgyblion oherwydd eu hygyrchedd a pherthnasedd i'r byd cyfoes ac mae datblygiad pellach y rhain yn allweddol i gynllun strategol Sir y Fflint yn y dyfodol. Yn ystod 2020 mae dysgu ar-lein a dysgu cyfunol wedi gwneud mwy o ddefnydd o'r technolegau hyn sy'n cael eu datblygu'n barhaus i ddiwallu anghenion y cwricwlwm newydd.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r heriau difrifol a wynebir gan ei ysgolion wrth recriwtio athrawon o ansawdd uchel a staff cynorthwyol sy'n gallu cyflwyno'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae tystiolaeth o heriau penodol yn y sector uwchradd mewn rhai meysydd pwnc, e.e. Cymraeg, Cemeg a Ffiseg. Bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth adnoddau dynol priodol i ysgolion cyfrwng Cymraeg pan fo'r angen, mewn perthynas â materion recriwtio. Mae hefyd angen hyrwyddo barn gadarnhaol o'r sector addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint ar draws y rhanbarth i ddenu staff i ddod i weithio i'r ardal. Mae'r defnydd o'r cynllun sabothol ar gyfer staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi bod yn effeithiol i wella ansawdd sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig y staff cymorth sydd wedi cael eu recriwtio i'r rolau hyn, ar ôl cynnal eu haddysg eu hunain drwy gyfrwng y Cymraeg o'r blaen, ond sydd efallai wedi colli hyder neu'n anghyfarwydd â'r derminoleg a ddefnyddir mewn ysgolion. Uchelgais tymor hwy fydd annog disgyblion ysgol uwchradd heddiw yn y sector cyfrwng Cymraeg i gadw eu defnydd o'r Gymraeg a dilyn cyrsiau addysg bellach ac uwch trwy gyfrwng y Gymraeg, a'i ystyried yn gam cadarnhaol i ddatblygu eu cyfleoedd gyrfa yn yr ardal.

Ailadroddwyd Archwiliad Sgiliau Cymraeg y Gweithlu yn 2017-18 fel rhan o ddull consortia rhanbarthol i ddatblygu'r gweithlu i gefnogi Cymraeg mewn Addysg. Roedd y data a gasglwyd yna'n llywio cynllunio lleol a rhanbarthol ar gyfer datblygu staff. Mae Sir y Fflint eisoes wedi nodi maes allweddol o angen yng Nghyfnod Allweddol 3, lle mae tystiolaeth yn dangos bod angen i staff wella eu sgiliau iaith Gymraeg bob dydd, yn ogystal â datblygu eu dealltwriaeth a defnydd o eirfa sy'n benodol i bwnc. Byddai gwelliannau yn y maes hwn yn sicrhau bod cynnydd da mewn sgiliau iaith disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cael ei wella ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 3, gan roi llwyfan cryfach ar gyfer llwyddiant yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae datblygu arweinwyr cryf yn y sector cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth allweddol arall ar gyfer Sir y Fflint, gan fod y niferoedd presennol sy'n cael mynediad at y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth drwy'r Gymraeg ac ar gyfer prifathrawiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, yn isel.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol, GwE, wedi datblygu continwwm arloesol o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ar bob lefel, o athrawon sydd newydd gymhwyso, drwy arweinyddiaeth ganol ac yn y pendraw i uwch arweinyddiaeth a phrifathrawiaeth. Bydd yn darged Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau bod niferoedd uwch o arweinwyr ysgol yn cael mynediad at y rhaglen hon a symud ymlaen i brifathrawiaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg, a all fod yn fwy sefydlog yn Sir y Fflint oherwydd bod llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer dyrchafiad.

Mae'r Urdd hefyd yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli ac achredu trwy gyfrwng y Gymraeg i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth, ac i ddatblygu hyder yn eu galluoedd trwy weithio fel rhan o dîm. Mae pob gwirfoddolwr yn cael ei gofrestru

ar gronfa ddata'r Urdd ac mae pob gwirfoddolwr yn cael llythyr o ddiolch a thystysgrif i gydnabod eu cyflawniad. Bydd un o'r blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diwygiedig yn cynnwys datblygu cyfleoedd fel hyn ymhellach.

Yn eu cyfarfodydd rheolaidd gyda gweision sifil mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, bydd uwch-swyddogion Sir y Fflint hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried materion cenedlaethol a rhanbarthol o ran sicrhau gweithlu sydd â chymwysterau ieithyddol addas e.e. drwy sicrhau bod digon o leoedd hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth a thrwy ddefnyddio pwerau statudol i hyrwyddo cymhwysedd staff yn y defnydd o'r Gymraeg e.e. drwy reoliadau sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad, Cynlluniau Gwella Ysgolion, Adroddiadau Blynyddol i Rieni a defnyddio Grant Gwella Addysg.

Ar y cyd â GwE a Thîm Ymgynghorol y Gymraeg, mae ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer cyflwyno cwricwlwm y Gymraeg a datblygiad proffesiynol pellach y staff i gyflawni canlyniadau uwch ar gyfer pob dysgwr yn cael eu nodi a'u targedu. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo hefyd i ymestyn ei bartneriaeth waith gyda sefydliadau allweddol eraill, i ddarparu cyfleoedd estynedig ar gyfer datblygu staff a gwell gweithgareddau i ddisgyblion fel eu bod yn cefnogi canlyniadau uwch yn y Gymraeg e.e. Mudiad Meithrin, Menter Iaith , Coleg Cambria, Prifysgol Bangor a'r Urdd.

Mae'r Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor â pherthynas waith gydweithredol gref ac yn cynnig ystod o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ar gyfer pobl ifanc, mewn lleoliadau ysgol a'r tu allan iddynt. Mae hyn yn sicrhau cyswllt agos rhwng y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Mae'r Urdd yn cynnal nifer o glybiau a phrosiectau yn y gymuned (Adran ac Uwchadran) fel bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hymestyn y tu hwnt i ffiniau'r ysgol. Mae'r Urdd hefyd yn cynnal clybiau a gweithgareddau amser cinio o'r enw Clybiau Cinio Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, er mwyn rhoi cyfle i ddatblygu hyder wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith fel rhan o weithgaredd llawn hwyl iddyn nhw. Bydd y cyfleoedd hyn yn parhau i gael eu gwella a'u darparu ledled Sir y Fflint.

Rydym yn parhau i ategu at fomentwm Eisteddfod yr Urdd lwyddiannus, a gynhaliwyd yn Sir y Fflint ym mis Mai 2016, a gyflawnodd rhai o'r ffigyrau presenoldeb uchaf yn ddiweddar. Roedd hyn yn gyfle gwirioneddol i godi proffil y Gymraeg a system addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd yn darparu ysgogiad ar gyfer pob ysgol ar draws yr awdurdod i ganolbwyntio ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig trwy eu paratoadau ar gyfer y digwyddiad. Targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn fydd sicrhau etifeddiaeth barhaol o'r Eisteddfod o ran y canlyniadau uwch a gyflawnir gan ddysgwyr a thrwy nifer y plant sy'n dod i addysg

cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau ei ddyfodol yn Sir y Fflint a sicrhau bod mwy o blant yn dod yn oedolion dwyieithog.

Sefyllfa bresennol:

- Diddordeb mawr gan ysgolion a rhieni/gofalwyr mewn cyfleoedd datblygu'r gweithlu/adnoddau a ddarparwyd ar-lein gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg y Cyngor

- Darparu cefnogaeth drwy hyfforddiant ar-lein ar gyfer gweithlu'r ysgol (Athrawon Cyfnod Sylfaen a CA2).

- Cynllun Athrawon Sabothol - Mae gan Gyngor Sir y fflint gofnod cryf dros nifer o flynyddoedd o gefnogi a gwerthuso effaith athrawon sabothol wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol.
  Mae rhai ysgolion Sir y Fflint yn eu trydydd neu bedwaredd flwyddyn o ryddhau athrawon i fynychu'r hyfforddiant. Mae enghreifftiau gwych o athrawon sabothol yn dychwelyd sydd wedi effeithio'n sylweddol ar safonau'r Gymraeg yn yr ysgol trwy addysgu Cymraeg i gymorthyddion addysgu a staff cefnogi e.e. staff arlwyo.

- Mae Sir y Fflint yn parhau i dderbyn niferoedd da yn rhanbarthol ar gyfer y cyrsiau sabothol – 15 wedi dychwelyd i'r ysgol rhwng 2019-2021 yn mynychu rhaglen gefnogaeth yn 2021-22 wedi'i ddarparu gan aelod o Dîm Ymgynghorol y Gymraeg; 9 o athrawon sabothol wedi dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020 – i dderbyn mynediad at raglen o gefnogaeth hyd at haf 2022; 2 o athrawon sabothol wedi dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2021 i gael mynediad at raglen o gefnogaeth hyd at haf 2022; 4 o athrawon sabothol wedi dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2019 i gael mynediad at raglen o gefnogaeth hyd at haf 2022

- Ar draws Sir y Fflint, mae Arweinwyr clwstwr y Gymraeg yn cael eu hannog i drafod blaenoriaethau ysgolion ar gyfer y flwyddyn hon gan roi ystyriaeth i CSCA Sir y Fflint gan gynnwys canolbwyntio ar:

    - Gynlluniau cefnogi ar gyfer datblygu darpariaeth Cymraeg mewn ysgolion
    - Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol (gan gynnwys y Siarter Iaith / Cymraeg Campus)
    - Datblygu rhaglen o ddysgu proffesiynol i sicrhau bod y gweithlu yn datblygu ei sgiliau Cymraeg yn barhaus

- Bydd aelodau Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ystyried yr adroddiad diweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg ‘Y Gymraeg a’r Gweithlu Statudol yng Nghymru’ 6 Awst 2020. Mae hon yn ddogfen sylweddol sy’n ei gwneud yn ofynnol i ALlau gael targedau penodol o ran niferoedd Athrawon a Chymorthyddion Addysgu dros y 10 mlynedd nesaf.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

- Gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu yn yr holl sectorau

- Cydweithio wedi’i sefydlu gyda phartneriaid allanol gan gynnwys GwE, Prifysgol Bangor, Coleg Cambria, Mudiad Meithrin, Menter Iaith a’r Urdd.

- Mwy o gapasiti staffio ar gael ar gyfer ysgolion Cyfrwng Saesneg sy’n symud ar draws y categorïau newydd ysgol o gyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:

- Hwyluso hyfforddiant llywodraethwyr ysgol ar y rôl o weithredu’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

- Targedu staff yn CA3 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mewn Cymraeg bob dydd a sgiliau iaith sy'n benodol i bwnc.

- Targedu staff cynradd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn datblygu eu sgiliau iaith Cymraeg.

- Datblygu defnydd mwy effeithiol o lwyfannau digidol i gefnogi darpariaeth hyfforddiant a'r defnydd o iaith mewn ysgolion e.e. Hwb, apiau Cymraeg ac ati.

- Annog pobl ifanc i ddeall y manteision ar gyfer eu datblygiad gyrfa o fod yn ddwyieithog a’u cefnogi i geisio cyfleoedd cyflogaeth yn lleol lle gallant ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg, yn enwedig mewn meysydd o alw e.e. darpariaeth blynyddoedd cynnar, y sector ysgolion a gwasanaethau gofal / iechyd.

- Ymgorffori'r cynllun Sabothol ar draws yr awdurdod i gynyddu nifer y plant sy’n defnyddio’r Gymraeg a sicrhau effaith gref ar safonau Cymraeg mewn ysgolion.

- Cefnogi penaethiaid a llywodraethwyr i flaenoriaethu datblygiad sgiliau iaith Gymraeg drwy gynnal arolwg o'u staff, eu targedu gyda datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel a monitro cynnydd drwy'r system rheoli perfformiad, i wella sgiliau'r gweithlu a chyflawni safonau uwch gan y disgyblion yn y Gymraeg.

- Parhau i ddefnyddio data o Gyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion (SWAC) i gynllunio darpariaeth yn y dyfodol

Beth rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Gweithredu cynllun gweithredu i sicrhau cyflenwad ddigonol o staff ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n symud ar draws y categorïau newydd ysgolion o gyfrwng Saesneg i gyfrwng Cymraeg

  Gall Cyrff Llywodraethu dystiolaethu sut mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'i weithredu yn eu hysgolion

Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

Mae Fforwm sefydledig Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir y Fflint yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i herio, cefnogi a monitro datblygiadau yn strategaeth cyfrwng Cymraeg Sir y Fflint. Mae'r Fforwm yn gorff bywiog sy'n dathlu camau arloesol i gefnogi'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint ond hefyd yn herio'r Cyngor a phartneriaid eraill i fod yn uchelgeisiol yn ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Strwythur y fforwm

Mae strwythur Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys grŵp aelodaeth y brif fforwm gydag aelodau hefyd yn cyfranogi mewn tri is-grŵp – darpariaeth, safonau a'r gweithlu. Mae'r Fforwm yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn – unwaith y tymor, gyda'r cyfarfodydd is-grŵp yn digwydd cyn prif gyfarfod y Fforwm – deuddeg cyfarfod i gyd. Yna mae aelodau'r is-grŵp yn bwydo'r cynnydd ar eu cynlluniau gweithredu unigol yn ôl i brif gynllun gweithredu'r Fforwm. Mae gan aelodaeth y Fforwm a'r is-grwpiau gydbwysedd da o gynrychiolaeth gan ysgolion a sefydliadau addysgol eraill a swyddogion y Cyngor. Felly mae'r gwaith partneriaeth yn sicrhau her a chefnogaeth i'w gilydd.

Adolygwyd cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn 2020 i wella'r gwaith a wnaed gan yr is-grwpiau ac i sicrhau nad

oedd y brif Fforwm yn rhy fawr neu'n anghytbwys. Roedd modd i holl aelodau Fforwm Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gyfranogi mewn ymgynghoriad cyn mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl newydd,.
Y nod yw bod is-grwpiau a arweinir gan dasgau dros dro yn cael eu ffurfio fel y bo'n briodol. Yn 2019 sefydlwyd grŵp Data dros dro gyda thasg benodol i archwilio ac adrodd yn ôl i'r Fforwm ar effaith ei gyfathrebu gyda rhieni / gofalwyr ynglŷn ag addysg cyfrwng Cymraeg.

Blaenoriaethau allweddol:

Mae prif amcanion y Fforwm yn parhau i ymwneud â cheisiadau gan rieni am leoedd gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar, ac i gynyddu darpariaeth lleoedd cyfrwng Cymraeg trwy fuddsoddiad cyfalaf mewn lleoliadau allweddol ar draws yr awdurdod er mwyn hwyluso dewis rhieni.

Aliniad gyda meysydd polisi allweddol:

Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Cynnig gofal plant 30 awr ar gyfer addysg Cymraeg cyn ysgol

Rhaglen Colegau ac Ysgolion yr 21ain Ganrif

Strategaeth Llywodraeth Cymru – Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Safonau'r Gymraeg CSFf

Cwricwlwm Cymru – Cenhadaeth ein Cenedl